

Mehfin 2015

CYNLLUN ORGANIG CYMREIG

THE WELSH  
ORGANIC SCHEME  
GB-ORG-13



# Cylchlythyr

## Yn y rhifyn hwn:

- Rhybudd i ffermwyr defaid – nematodirus
- Adolygiad Cynhadledd BOBL
- Potash mewn systemau organig
- Eisiau arallgyfeirio eich busnes organig?
- Rheoli chwyn
- Ffenestr organig Glastir 2015
- Tir sy'n cael ei drosi – rheolau bwydo
- Canolfan Milfeddygaeth Cymru yn weithredol!
- Cynllun Organig Cymru – diweddariad ar ddiffyg cydymffurfio

## Cysylltwch â ni:

QWFC Ltd  
P.O. Box 8  
Gorseland  
Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 2WB

Ffon: 01970 636688

Facs: 01970 624049

Ebost: [organic@wlbpc.co.uk](mailto:organic@wlbpc.co.uk)

[www.welshorganic.co.uk](http://www.welshorganic.co.uk)



## Ffermwyr defaid yn cael eu rhybuddio i fod yn wylriadwrus o Nematodirus

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae ffermwyr defaid wedi cael eu rhybuddio yn y wasg i fod yn wylriadwrus o **Nematodirus**.

Mae Nematodirosis yn afiechyd sy'n effeithio ar ŵyn ifanc sy'n pori porfa

yr oedd ŵyn ifanc arno yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Mae arwyddion bod ŵyn wedi cael eu heintio yn cynnwys dolur rhydd difrifol

yn ystod misoedd olaf y gwanwyn/dechrau'r haf, ac mewn achosion mwy difrifol - marwolaeth. Yn aml, nid yw ŵyn sy'n goroesi yn tyfu cystal.



Mae'n bwysig cofio mai ŵyn yn unig sy'n cael eu heffeithio gan nematodirosis; nid yw mamogiaid yn dangos yr afiechyd.

Am y wybodaeth ddiweddaraf ar barasitiaid mewn defaid, ewch i

wefan SCOPS - [www.scops.org.uk](http://www.scops.org.uk)

Os ydych chi'n amau bod eich ŵyn yn dangos arwyddion o nematodirosis, gofynnwch i'ch

milfeddy am gyngor.

**Fodd bynnag, cofiwch nad yw fel rheol yn bosibl defnyddio cyffuriau anthelmintig mewn systemau organig.**

Annwyl Aelodau,

Gobeithio eich bod wedi cael Gwanwyn da – mae'r borfa'n dechrau tyfu, er ychydig yn araf!

Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd y cyfle i wneud cais i Glastir Organig 2015 yn agor ar 20 Gorffennaf (Dydd Llun Sioe Frenhinol Cymru), ac y bydd yn cau ar 2 Medi. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn rhoi cyfle i'r rhai ohonoch na chafodd gyfle yn ystod y cyfnod llunio cais blaenorol i fanteisio ar yr arian sydd ar gael.

Yn ôl yr arfer, bydd QWFC yn bresennol yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf yn adeilad WAOS gerllaw'r prif gylch - stondin rhif E378. Mae'n bleser gennyf amgáu eich gwahoddiad i'r brechwast fydd yn cael i cynnal yn y Sioe ar yr 20fed o Orffennaf. Edrychwn ymlaen at eich gweld yno!

Yn gywir, Carys Jones, Swyddog Ardystio'r Cynllun Organig

## Adolygiad Cynhadledd BOBL

Ar ddydd Iau 21 Mai 2015, cynhaliwyd cynhadledd gloi Gwell Cysylltiadau Busnes Organig (BOBL) ar Faes Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd. Prif nod y gynhadledd oedd edrych yn ôl ar ddatblygiad y sector organig yng Nghymru, a sut mae'r datblygiad hwn wedi arwain at gynaliadwyedd a chydnerthedd yn y diwydiant.

Thema'r gynhadledd oedd "Cydnherthedd a Chyfleoedd: Marchnata a Chynhyrchu Organig Cynaliadwy yng Nghymru" – a

chyflwynwyd adroddiad ar y farchnad gan Tony Little, Canolfan Organig Cymru, ac roedd teimlad positif bod organig yn cryfhau. Wrth roi ei farn ar y farchnad organig, dywedodd Jon Morgan, Livestock Marketing, "mae yna gyfle gwych i'r dyfodol" ac ychwanegodd "Bydd deall y farchnad yn allweddol". Roedd llawer o'r cyfranwyr yn credu y dylai cynhyrchwyr gadw mewn cof bod nifer y cynhyrchwyr organig yng Nghymru wedi gostwng dros y 18 mis diwethaf, a bod canlyniad positif i hynny gan y bydd y cyflenwad cynnyrch organig nawr yn cyfateb i'r galw. Rhoddodd Dai Miles, Cyfarwyddwr Calon Wen anerchiad ar sut mae Calon Wen wedi datblygu. Maen nhw'n credu'n gryf bod brandio cynhyrchion organig yn chwarae rôl allweddol yn y broses werthu.

Agorwyd sesiwn y bore gan Dafydd Owen, Cyfarwyddwr prosiect BOBL, gyda chymorth yr Athro Nigel Scollan, IBERS, gyda siaradwyr gwadd gwych yn annerch ar wahanol feysydd o fewn y sector organig. Cadarnhaodd Duncan Sinclair, Rheolwr Amaethyddol Waitrose bod galw yn parhau am gig organig ac y dylai cynhyrchwyr "... fanteisio ar bob cyfle i werthu cynnyrch organig". Rhoddodd Susanne Padel, Uwch Reolwr Rhaglenni yng Nghanolfan Ymchwil Organig Elm Farm anerchiad ar y farchnad organig yng Nghymru. Dywedodd bod hi'n anodd cael gafael ar ddata, ond bod teimlad cryf bod y sector organig yn cryfhau eto, yn dilyn y dirwasgiad. Roedd Susanne o'r farn bod "Organig yn parhau i fod yn

rhywbeth sydd angen ei werthu!" a phwysleisiodd bod angen gwneud mwy i farchnata cynnyrch organig. Mae'n ddiddorol bod 18.6% o dir garddwriaethol yng Nghymru yn organig, ac efallai y dylai ffermwyr da byw arallgyfeirio eu busnesau trwy neilltuo rhan o'u tir i gynnyrch garddwriaethol.

Ar hyrwyddo gwerthiant cynhyrchion organig:

**"Mae Organig yn parhau i fod yn rhywbeth sydd angen ei werthu!"**

Susanne Padel, Canolfan Ymchwil Organig Elm Farm

Yn dilyn cyflwyniadau gan y siaradwyr gwadd, roedd cyfle i bawb ymweld â thri gweithdy. Arweiniwyd "Building Resilience into Supply Chains"

gan Tony Little, Canolfan Organig Cymru, ac roedd teimlad positif bod organig yn cryfhau. Wrth roi ei farn ar y farchnad organig, dywedodd Jon Morgan, Livestock Marketing, "mae yna gyfle gwych i'r dyfodol" ac

Ar lwyddiant y sector organig yn y dyfodol:

**"Bydd deall y farchnad yn allweddol"**

Jon Morgan, Livestock Marketing

ychwanegodd "Bydd deall y farchnad yn allweddol". Roedd llawer o'r cyfranwyr yn credu y dylai cynhyrchwyr gadw mewn cof bod nifer y cynhyrchwyr organig yng Nghymru wedi gostwng dros y 18

mis diwethaf, a bod canlyniad positif i hynny gan y bydd y cyflenwad cynnyrch organig nawr yn cyfateb i'r galw.

Rhoddodd Dai Miles, Cyfarwyddwr Calon Wen anerchiad ar sut mae Calon Wen wedi datblygu. Maen nhw'n credu'n gryf bod brandio cynhyrchion organig yn chwarae rôl allweddol yn y broses werthu.

**"Dylai cynhyrchwyr fanteisio ar bob cyfle i werthu cynnyrch organig"**

Duncan Sinclair, Rheolwr Amaethyddol Waitrose

Maen nhw'n credu'n gryf bod brandio cynhyrchion organig yn chwarae rôl allweddol yn y broses werthu.



## Potash mewn systemau organig

Dros yr ychydig wythnosau diwethaf, rydym wedi derbyn nifer o ymholiadau ynghylch defnyddio potash ar dir organig. Rydym yn gobeithio y bydd y canllawiau hyn yn ddefnyddiol i chi:

**Prif egwyddorion ffermio organig yw ceisio gweithio o fewn cylchoedd a systemau naturiol a chynnal ffrwythlondeb y tir i'r tymor hir. Mae'n rhaid talu sylw gofalus er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o faetholion yn cael eu colli o'r pridd. Yr allwedd yw cynllunio'n ofalus sut i ddefnyddio gwrteithiau.**

**Os oes diffyg potash, mae'n rhaid i chi fynd trwy'r broses o gynnal dadansoddiad o'r pridd a gwneud cais am rannirymiad (*derogation*). Gweler isod am fanylion pellach.**

Mae potash i'w gael ar ffurf planhigion fel halwynau potasiwm (K) fel potasiwm clorid, sylffad a nitrad. Mae'r storffeydd naturiol hyn fel rheol wedi digwydd wrth i foroedd sychu miliynau o flynyddoedd yn ôl. Mewn priddoedd a phlanhigion, mae'r halwynau hyn, sydd i gyd yn hydawdd mewn dŵr, yn gwahanu i'r potasiwm cation  $K^+$  a'r anion perthnasol  $Cl^-$ ,  $SO_4^{2-}$ ,  $NO_3^-$  ayyb. Mae potash mewn gwrteithiau fel rheol ar ffurf hydawdd mewn dŵr, oddeutu 70% - 90%. Mae ychydig bach ynghlwm i'r deunydd organig sy'n cael ei ryddhau i'r pridd wrth i'r defnydd organig droi'n fwynau.



Yr halen potasiwm – potash!

Mae **gwrteithiau** yn cynnwys potash defnyddiol – mae faint o botash sydd ynddyn nhw'n amrywio yn ôl y math o dda byw a'r math o system y mae'r gwrtaith wedi dod ohono. Mae'r dull o storio'r gwrtaith yn bwysig, oherwydd mae'n bosibl colli potash os nad yw'n cael ei storio'n gywir.

Mae angen dadansoddi'r pridd, sy'n cynnwys y clai, er mwyn mesur faint o botasiwm (K) sy'n bresennol yn y pridd. Os ydych chi'n credu bod diffyg K yn eich pridd, ewch ati i ddadansoddi'r pridd. Os oes diffyg, cysylltwch â QWFC i wneud cais am rannirymiad potash (*potash derogation*).

### Defnyddio Potash – pethau i'w cofio!

- ✓ CEISIWCH ailgylchu potash o fewn eich system ffermio
- ✓ YMGEISIWCH am RS8
- ✓ GWNEWCH ddadansoddiad o'r pridd gan gynnwys y clai
- ✓ EDRYCHWCH ar Atodiad F yn safonau QWFC sy'n nodi ffynonellau potash a ganiateir – bydd rhaid cael caniatâd cyn eu defnyddio
- ✗ PEIDIWCH â defnyddio cynhyrchion potash cyn derbyn caniatâd
- ✗ PEIDIWCH â defnyddio cynhyrchion potash oni bai bod eu hangen ar eich pridd!

**Os hoffech wybodaeth bellach ar sut i ddefnyddio potash, yna cysylltwch â ni ar 01970 636688**

**Mae taflenni rhanddirymu potash (*Potash derogation sheets*) (RS8) ar gael ar ein gwefan [www.welshorganic.co.uk](http://www.welshorganic.co.uk)**

## Eisiau arallgyfeirio eich busnes organig?

### Beth am dyfu ffrwythau a llysiau?

Mae Arolwg Cynhyrchwyr Organig Cymru 2014, a gynhaliwyd gan Ganolfan Organig Cymru, IBERS & Canolfan Ymchwil Organig yn amcangyfrif bod oddeutu 77000 hectar o dir yng Nghymru ym mis

Tachwedd 2014 wedi'i ardystio fel tir organig. Roedd porfa barhaol/tir pori garw yn cyfrif am 8.3% o dir organig Cymru rhwng 2011-2013. Mae'n bosibl y bydd y ffaith bod 18.6% o dir organig Cymru yn dir garddwriaethol (ac eithrio tatws) yn y cyfnod yn eich synnu.

Mae Cynllun Organig Glastir yn dangos bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i annog cynhyrchiant garddwriaethol organig yng Nghymru trwy gynnig taliadau cymorth sylweddol i'r sector garddwriaethol.

Mae'r farchnad ar gyfer da byw organig wedi bod yn wael yn ystod y cyfnod diweddar, ond mae'r rhan

fwyaf o'r cynhyrchwyr yn credu y bydd y farchnad yn gwella yn dilyn gostyngiad yn nifer y cynhyrchwyr organig. Ydych chi efallai wedi ystyried arallgyfeirio eich busnes a thyfu ffrwythau a llysiau organig?



Mae gwerthiant ffrwythau a llysiau organig wedi cynyddu, yn ôl Adroddiad Marchnad Sefydliad y Pridd/*The Soil Association* (2014). Nododd yr adroddiad bod cynnydd o 11% mewn cynlluniau gwerthu mewn bocs a chynlluniau cludo cynnyrch organig i gartrefi. Mae

busnesau sydd wedi mabwysiadu cynllun gwerthu cynnyrch mewn bocs yn rhagweld y bydd eu busnesau yn parhau i dyfu!

*Os hoffech dderbyn mwy o wybodaeth ynghylch sut i arallgyfeirio i arddwriaeth, cysylltwch â ni am gopi o'r safonau garddwriaethol.*

## Rheoli chwyn

Rydym wedi derbyn nifer o alwadau ffôn yn ddiweddar ynghlŷ, â'r defnydd o ddefnyddio chwynladdwyr i reoli chwyn.

Un o brif nodweddion systemau organig yw **na ellir** defnyddio chwynladdwyr. Mae'n bosibl rheoli chwyn trwy ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- Dewis pa gnydau i'w tyfu a chylchdroi'r cnydau sy'n cael eu tyfu
- Arferion trin y tir
- Dwysedd planhigion a chystadleuaeth rhyngddynt
- Rheolaeth fecanyddol – hofio peiriant, chwynnu brwsh, ogedu crib (*comb harrowing*)
- *Mulching*
- Rheolaeth thermal – llosgwyr propan, sterileiddio gyda stêm
- Rheolaeth â llaw – hofio â llaw

\*Ni ellir defnyddio dulliau chwistrellu chwyn

## Amserlen ar gyfer Ceisiadau Glastir Organig

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yr amserlen ar gyfer derbyn ceisiadau Glastir Organig 2015 yn agor ar **20 Gorffennaf** ac yn cau ar **2 Medi** 2015.

Bydd mwy o wybodaeth ar gael yn Sioe Frenhinol Cymru.



## Tir sy'n cael ei drosi – rheolau bwydo

Mae llawer ohonoch sydd wedi bod yn organig am sawl blwyddyn wedi penderfynu trosi tir newydd. Mae'n bosibl bwydo da byw organig o dir sy'n cael ei drosi, ond mae'r meintiau yn amrywio.

Bwyd o dir sy'n cael ei drosi Blwyddyn 1 - Mae gwenith, haidd neu gnydau eraill sy'n dod o dir trosi blwyddyn 1 yn cael eu hystyried yn anorganig.

Mae'n bosibl i hyd at 20% o fwyd blynyddol yr anifail neu ei fwyd drwy gydol ei oes (ar sail bwyd sych) ddod o dir sy'n cael ei drosi yn y flwyddyn gyntaf, boed yn borthiant sydd wedi'u gasglu neu trwy bori porfa barhaol neu barseli porthiant lluosflwydd. Mae'r rheol 20% yn berthnasol i dir sy'n rhan o'ch fferm chi eich hunan, neu fferm gysylltiol.

Fodd bynnag, nid yw'r rheolau hyn yn cynnwys porthiant blynyddol fel maip sy'n cael eu tyfu ar dir trosi blwyddyn 1.

Bwyd o dir sy'n cael ei drosi Blwyddyn 2 – Gallwch fwydo 100% o fwyd o dir sy'n cael ei drosi blwyddyn 2 i'r da byw, cyn belled â bod hyn yn dod o'ch fferm chi eich hunan. Mae hyn

ond yn berthnasol os oes gennych eisoes dir sy'n gwbl organig.

Os yw'r bwyd o dir sy'n cael ei drosi blwyddyn 2 yn dod o fferm arall, neu o fferm gysylltiol, 30% yw'r mwyafrif y gellid ei fwydo (ar sail bwyd sych blynyddol).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu gais am wybodaeth ynghylch y rheolau hyn, yna cysylltwch â ni.



**Nodwch os gwelwch yn dda, mae'r rheolau hyn yn berthnasol yn unig i gynhyrchwyr sydd eisoes â thir sydd wedi sicrhau statws organig llawn!**

## Er gwybodaeth... Mae Canolfan Milfeddygaeth Cymru yn weithredol!

Mae Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf (sy'n bennaf gyfrifol am QFWC) a chonsortium o filfeddygon a Phrifysgol Aberystwyth, wedi bod yn gweithio i gadw'r labordy archwilio meddygol yn Aberystwyth ar agor. Mae'r ganolfan wedi'i chynllunio i gefnogi busnesau milfeddygol yng Nghanolbarth a De Cymru, ond bydd hefyd yn cyfrannu at rwydwaith arolygu sganio drwy'r Deyrnas Gyfunol ac yn darparu gwasanaeth i gymuned Ffermio APHA.



Er gwybodaeth, rydym yn amgáu'r cylchlythyr cyntaf sydd wedi'i baratoi gan y Ganolfan hon. Er ei fod wedi'i dargedu at fusnesau milfeddygol, mae'n cynnwys manylion a chefnidir i'r gwaith sy'n cael ei wneud ganddyn nhw - er na fyddai rhai o'r atebion a gynnigir ar gael i ffermwyr organig.

### • CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL:

- Canolfan Organig Cymru: 01970 622248 [organic@aber.ac.uk](mailto:organic@aber.ac.uk)
- Canolfan Ymchwil Organig Elm Farm: 01488 658298 [elmfarm@organicresearchcentre.com](mailto:elmfarm@organicresearchcentre.com)
- Taliadau Gwledig Cymru - Canolfan Gyswilt Cwsmeriaid: 0300 062 5004

## Cynllun Organig Cymru – y wybodaeth ddiweddaraf ar ddiffyg cydymffurfio

Mae'n dda gennym gyhoeddi bod dadansoddiad o'r data ar ddiffyg cydymffurfio yn dangos bod cyfraddau cydymffurfio cynhyrchwyr organig at ei gilydd yn gwella! Prin iawn yw'r achosion o ddiffyg cydymffurfio sy'n codi yn yr asesiadau blynyddol.

Dyma'r 3 achos mwyaf cyffredin o ddiffyg cydymffurfio sy'n codi:

1. **Gwallau/newidiadau ym manylion y tir** - yn hanesyddol, dyma'r achos mwyaf cyffredin o ddiffyg cydymffurfio sy'n codi. Mae'n rhaid i chi hysbysu QWFC os oes unrhyw newidiadau i fanylion y tir, h.y. ychwanegu tir newydd, newidiadau i'r tir, ayyb ...
2. **Dim rhanddirymiad i gymysgedd hadau gwair 70%** - cofiwch fod angen cyflwyno rhanddirymiad i hadau (taflen gofnodi 13). Os oes arnoch angen copi o'r daflen gofnodi, cysylltwch â QWFC neu fe allwch lawr lwytho copi o'r wefan [www.welshorganic.co.uk](http://www.welshorganic.co.uk)
3. **Dim rhanddirymiad ar gyfer da byw bridio anorganig a brynwyd** - Gweler y Cylchlythyr blaenorol am y rheolau ar brynu da byw anorganig i gymryd lle da byw. Dylid cwblhau'r rhanddirymiad (taflen gofnodi 9) a'i gyflwyno cyn prynu da byw anorganig.

